Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Rhaglen Diwygio Mynediad

Papur Adnabod Opsiynau: Grŵp Arbenigol 2

Hyblygrwydd mewn perthynas â hawliau tramwy cyhoeddus

OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG42943 ISBN Digidol 978-1-80391-135-9

Papur Adnabod Opsiynau: Diwygiadau 2A a 2B

Cyflwyniad

Gwnaeth Grŵp Arbenigol 2 gwrdd ar 13 Mawrth 2020 i drafod opsiynau ar sut i weithredu bwriad y polisi a nodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer diwygiadau 2A a 2B.

Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei lunio yn dilyn ail gyfarfod Grŵp Arbenigol 2. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r prif opsiynau diwygio y nodwyd ar gyfer eu gweithredu yn y ddau ddiwygiad.

Caiff yr opsiynau diwygio a nodwyd o gam hwn y broses grŵp arbenigol eu cyflwyno am ystyriaeth fanwl gan bob grŵp arbenigol. Bydd hyn yn cynnwys darparu mwy o fanylder a dadansoddi ar gyfer pob cynnig – gan gynnwys unrhyw elfennau cyffredin a/neu faterion trawsbynciol.

Dylid nodi bod cynnwys y papur hwn yn cyfrannu at ddatblygu cyngor i Lywodraeth Cymru ar gyfer diwygio deddfwriaeth mynediad fel rhan o'r Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad. Nid yw unrhyw wybodaeth a chanlyniadau o'r fath a gynhyrchir yn ystod proses y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad yn cynrychioli safbwynt polisi Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru nac unrhyw aelodau eraill o'r Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad (grŵp llywio / grwpiau arbenigol).

Proses

Yn dilyn y cyfarfod cyntaf, gofynnwyd i aelodau ystyried y Papur Nodi Problemau/Materion a gynhyrchwyd ar gyfer pob diwygiad a chyflwyno 'Cynigion Amlinellol ar gyfer Opsiynau Diwygio' sy'n crynhoi'r dulliau posibl o weithredu bwriad y polisi a nodir ar gyfer pob diwygiad.

Cafodd y cynigion diwygio hyn, ynghyd â rhai a awgrymwyd ar y diwrnod, eu cyflwyno a'u hystyried gan aelodau o'r grŵp arbenigol. Yna, cafodd y cynigion amrywiol eu cymharu a'u grwpio yn ôl dulliau a oedd yn weddol gyffredin.

Diystyriwyd opsiynau y cytunwyd yn fras nad oeddent o fewn cwmpas y diwygiad na bwriad y polisi a nodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Yna, cafodd y cynigion opsiynau a oedd yn weddill eu hystyried ymhellach mewn is-grwpiau. Gofynnwyd i'r is-grwpiau ychwanegu mwy o wybodaeth a manylion am yr elfennau allweddol y byddai angen i bob cynnig eu cynnwys, gan ystyried y materion allweddol a nodwyd yn y Papur Nodi Problemau/Materion

Diwygiad 2A

Adnabod opsiynau diwygio amlinellol

Yng ngham cyntaf y broses, nodwyd a chytunwyd ar y cynigion amlinellol bras y dylid eu hystyried ymhellach. Mae'r cynigion amlinellol wedi'u crynhoi yn y tabl canlynol:

2A: Teitl y cynnig amlinellol	Disgrifiad cryno o'r cynnig amlinellol
i. Cymhwyso hawliau uwch i lwybrau troed yn gyffredinol [dull adran 30]	Datblygu'r gwaith o gymhwyso hawliau uwch i lwybrau troed yn gyffredinol, gan ddefnyddio dull o fath adran 30 Deddf Cefn Gwlad 1968, gyda chafeat neu gymal o ran gofyniad am ddefnydd cyfrifol.
ii. Hawliau uwch wedi'u cymhwyso i lwybrau troed gyda phwerau i wahardd ar sail anaddasrwydd	Hawliau uwch wedi'u cymhwyso ar draws y rhwydwaith o lwybrau troed. Byddai pwerau'n cael eu darparu ar gyfer awdurdodau priffyrdd lleol i asesu llwybrau am anaddasrwydd o ran hawliau uwch. Gellid cyflwyno gwaharddiad i lwybrau pe aseswyd bod hawliau'n anaddas. Gallai 'anaddasrwydd' gael ei benderfynu ar sail proses asesu a meini prawf ffurfiol (asesiad anaddasrwydd).
iii. Cymhwyso hawliau uwch i lwybrau troed fesul achos ac ar sail ddetholedig	Cymhwyso hawliau uwch fesul achos, trwy broses o asesu sydd wedi'i chysylltu â'r cynllun ffermydd trwy ddyletswydd i werthuso'r rhwydwaith wrth i'r awdurdod lleol gymhwyso meini prawf safonol sy'n gysylltiedig â Chynlluniau Gwella Hawliau Tramwy.

Cynigion ar gyfer opsiynau diwygio – nodi elfennau gofynnol pellach

Ar gyfer pob un o'r cynigion amlinellol bras a nodwyd uchod, nodwyd disgrifiad cryno ac elfennau allweddol, neu gynhwysion, y byddai eu hangen ar gyfer pob dull opsiwn arfaethedig. Mae'r rhain wedi'u crynhoi isod ar gyfer pob cynnig amlinellol.

2A(i) Cymhwyso hawliau uwch i lwybrau troed yn gyffredinol [dull o fath adran 30 Deddf Cefn Gwlad 1968] gyda chymal ar gyfer defnydd cyfrifol

Disgrifiad o'r cynnig opsiwn amlinellol:

Rhoi estyniad i'r amrediad o weithgareddau y gall y cyhoedd ymgymryd â nhw yn ôl eu hawliau ar hyd pob llwybr troed yng Nghymru. Gallai darpariaeth o fath adran 30 Deddf Cefn Gwlad 1968 roi hawliau ar gyfer beicio a marchogaeth ceffylau ar hyd llwybrau troed; ni fyddai gan awdurdodau lleol unrhyw gyfrifoldeb dros gynnal a chadw neu wella llwybrau troed at ddefnydd hawliau uwch. Byddai cymal neu gafeat yn y ddeddfwriaeth hefyd yn cael ei roi yn ei le er mwyn darparu mecanwaith ar gyfer gwahardd a chyfyngu ar fynediad.

Elfennau allweddol o fewn y cynnig opsiwn amlinellol 'Cymhwyso hawliau uwch i lwybrau troed yn gyffredinol':
Ystyriwyd y byddai'n ofynnol i'r opsiwn hwn gynnwys yr elfennau canlynol ynddo:

Cyfeirnod	2A(i) Elfen ofynnol ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol	Elfen amgen ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol
001.	Diwygio'r ddeddfwriaeth i ganiatáu beicio a marchogaeth ceffylau ar lwybrau troed [gan ddefnyddio darpariaeth o fath adran 30 Deddf Cefn Gwlad 1968]	Deddfwriaeth i ddarparu ar gyfer eitemau ychwanegol er mwyn caniatáu cludo cerbydau dŵr nad ydynt

Cyfeirnod	2A(i) Elfen ofynnol ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol	Elfen amgen ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol
		wedi'u pweru'n fecanyddol ar lwybrau troed a hawliau tramwy cyhoeddus eraill ar gyfer cael mynediad cyfreithiol i ddyfroedd mewndirol.
002.	Deddfwriaeth [tebyg i adran 30] i bennu bod cyfrifoldeb dros gynnal a chadw ond yn ofynnol ar gyfer defnydd traed – nid ar gyfer marchogwyr ceffylau na beicwyr	Deddfwriaeth yn cynnwys cynnal a chadw ar gyfer hawliau uwch
003.	Diwygio rheoliadau mapio i adlewyrchu'r newid. Byddai hyn yn cynnwys y mapiau diffiniol o hawliau tramwy cyhoeddus. Byddai angen i ddarluniad drwy ffynonellau mapio eraill hefyd adlewyrchu newidiadau (e.e. Arolwg Ordnans)	
004.	Diweddaru mapiau diffiniol – mecanwaith i ddiweddaru mapiau diffiniol	Clirio'r ôl-groniad o orchmynion addasu mapiau diffiniol, neu gyflawni'r gwaith ochr yn ochr, ond gyda staff ychwanegol er mwyn gwneud y gwaith o ddiweddaru mapiau.
005.	Cymhwyso llai o atebolrwydd cyhoeddus, fel y'i diffinnir yn y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, i hawliau tramwy cyhoeddus	
006.	Rhoi dyletswydd (a phwerau cysylltiedig) ar awdurdodau priffyrdd lleol i addasu cyfyngiadau (seilwaith) ar gyfer hawliau uwch gydag ystyriaeth ar gyfer cyfyngu mynediad anghyfreithlon a hwyluso gwelliannau i hygyrchedd	Caiff cyfyngiadau eu haddasu fel rhan o gytundebau a wneir trwy gynlluniau taliadau defnydd tir.
007.	Creu deddfwriaeth ar gyfer 'mecanwaith cyfyngiadau a gwaharddiadau' – creu proses cyfyngiadau a gwaharddiadau sy'n galluogi hawliau uwch i gael eu tynnu'n ôl ar rannau o lwybrau lle ceir achos profedig o ymddygiad anghyfrifol. Dylai'r broses hon gael ei gweithredu drwy geisiadau, gan gynnwys proses ymgynghori ac apelio (gallai rhesymau gynnwys effeithiau ar y canlynol: tir gweithio, cadwraeth natur, bywyd gwyllt, ystyriaethau iechyd a diogelwch ac ati)	Cod statudol i ddarparu mecanwaith er mwyn cymryd camau gorfodi yn erbyn ymddygiad anghyfrifol [gweler isod]

Cyfeirnod	2A(i) Elfen ofynnol ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol	Elfen amgen ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol
008.	Rhoi pwerau i awdurdodau priffyrdd lleol i uwchraddio arwyddion/cyfeirbwyntiau ar gyfer llwybrau troed sydd â hawliau uwch, gan gynnwys y pŵer i osod arwyddion am resymau ar wahân i ddangos cyfeiriad.	
009.	Ymgorffori cymal neu gafeat ar gyfer rheoliadau i amlinellu defnydd hawliau uwch cyfrifol yn benodol, mewn arweiniad neu fecanwaith arall. Byddai hyn yn cynnwys “hierarchaeth o ddefnyddwyr” ar lwybrau ac yn diffinio “cytundebau ffurfiol” ar rannau o lwybrau y'u hystyriwyd iddynt beri problemau. Byddai methiant i gydymffurfio yn sbarduno'r broses cyfyngiadau a gwaharddiadau a amlinellwyd uchod.	Datblygu cod statudol (tebyg i'r ffordd y mae cod yr Alban wedi'i nodi) sy'n ymdrin â defnyddwyr unigol, sy'n arwain at golli eu hawliau yn bersonol a mecanwaith gorfodi cyfochrog.
010.	Gosod dyletswydd ar Cyfoeth Naturiol Cymru / Llywodraeth Cymru i gyhoeddi cod ymddygiad, a dyletswydd ar Lywodraeth Cymru / Cyfoeth Naturiol Cymru a phob awdurdod mynediad i hyrwyddo dealltwriaeth ohono.	
011.	Cyfathrebu hawliau mynediad (trwy fapio, ymgyrch gyfathrebu; o fewn gwaith [diwygiedig] y Cod Cefn Gwlad a chodau gweithgareddau)	
012.	Adolygu rheolau o gwmpas gweithgarwch masnachol ar hawliau tramwy cyhoeddus ac ar dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy a'u halinio'n well mewn perthynas â hawliau uwch. Datblygu a chyfathrebu diffiniadau mwy eglur o weithgarwch masnachol.	

Mae'n bosibl nodi amrywiadau mewn un neu fwy o elfennau allweddol ar gyfer cynnig opsiwn a chadw'r dull cyffredinol ar yr un pryd. Mae'r rhain wedi'u nodi yn y tabl uchod.

2A(ii) Hawliau uwch wedi'u cymhwyso i lwybrau troed gyda phwerau i wahardd ar sail anaddasrwydd

Disgrifiad o'r cynnig opsiwn amlinellol:

Hawliau uwch wedi'u cymhwyso ar draws y rhwydwaith o lwybrau troed yn dilyn dull o'r fath adran 30 a amlinellwyd yn Niwygiad 2A(iii) yn y lle cyntaf. Byddai pwerau'n cael eu darparu ar gyfer awdurdodau priffyrdd lleol i asesu llwybrau am anaddasrwydd o ran hawliau uwch. Gellid cyflwyno gwaharddiad i lwybrau pe aseswyd bod hawliau'n anaddas. Gallai 'anaddasrwydd' gael ei benderfynu ar sail proses asesu a meini prawf ffurfiol (asesiad anaddasrwydd).

Elfennau allweddol o fewn y cynnig opsiwn amlinellol 'Dull hawliau uwch ac anaddasrwydd':

Ystyriwyd y byddai'n ofynnol i'r opsiwn hwn gynnwys yr elfennau canlynol ynddo:

Cyfeirnod	2A(ii) Elfen ofynnol ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol	Elfen allweddol amgen ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol
001.	Deddfwriaeth ar gyfer cymhwyso dull o fath adran 30 [gweler opsiwn diwygio 2A (iii) ar gyfer yr elfennau gofynnol hynny]	
002.	Byddai'n ddyletswydd ar awdurdodau priffyrdd lleol [pŵer?] i asesu'r rhwydwaith o lwybrau troed cyhoeddus o ran anaddasrwydd ar gyfer defnydd hawliau uwch [gyda hyblygrwydd i wahardd mathau gwahanol o hawliau defnyddwyr] – dim pwerau newydd neu ychwanegol i gyfyngu ar hawliau llwybrau troed neu eu gwahardd	Pŵer i asesu anaddasrwydd yn ôl disgresiwn Hawliau i'w cymhwyso i'r awdurdod priffyrdd lleol i gynnal asesiad anaddasrwydd
003.	Pwerau ar gyfer Llywodraeth Cymru i wneud rheoliadau i nodi'r broses asesu anaddasrwydd, gan gynnwys arweiniad gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol o ran y broses a meini prawf ar gyfer asesu	
004.	Pwerau i sefydlu fframwaith meini prawf asesu ar gyfer anaddasrwydd, gan gynnwys (er enghraifft): Seilwaith; lled y llwybrau presennol; diogelwch cyhoeddus; faint o ddefnydd – cyfredol a disgwyliedig	
005.	Pŵer [dyletswydd?] ar yr awdurdod priffyrdd lleol i gynnal arfarniad anaddasrwydd o'r rhwydwaith, gan gynnwys ymgynghori Ymgyngoreion wedi'u diffinio mewn deddfwriaeth [gan gynnwys Fforymau Mynediad Lleol, tirfeddianwyr, ymgyngoreion statudol ar gyfer Gorchmynion Llwybr Cyhoeddus?]	Gwneir asesiadau fesul llwybr yn ôl disgresiwn yr awdurdod priffyrdd lleol; proses ymgeisio i'r awdurdod priffyrdd lleol ar gyfer asesiad(au) o lwybrau troed penodol

Cyfeirnod	2A(ii) Elfen ofynnol ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol	Elfen allweddol amgen ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol
006.	Pwerau dewisol ar gyfer awdurdodau priffyrdd lleol wrth wneud penderfyniadau: dylai awdurdodau lleol allu diystyru llwybrau penodol ar sail eu harfarniad o'r rhwydwaith	
007.	Cynnwys apeliadau fel rhan o'r broses arfarnu – dylai hyn fod yn fewnol i ddechrau rhwng yr awdurdod priffyrdd lleol a'r Fforwm Mynediad Lleol. Byddai apeliadau ar gyfer materion cymhleth, a materion sydd heb eu datrys, yn mynd i gam yr Arolygiaeth Gynllunio am benderfyniad	Byddai'r Fforwm Mynediad Lleol yn darparu cyngor i'r awdurdod priffyrdd lleol yn unol â'r rôl bresennol
008.	Gofyniad ar gyfer adolygiad 'cyfnodol' o lwybrau anaddas – llwybrau sydd wedi'u gwahardd yn barhaol neu y gellir eu hadolygu [gweler i'r dde]	Cyfnod adolygu: llwybrau wedi'u gwahardd ar sail terfyn amser (adolygiad sy'n treiglo)
009.	Byddai angen pwerau – i'r awdurdodau lleol ystyried a diwygio adeileddau ar hawliau tramwy cyhoeddus – er mwyn arfarnu llwybrau sydd wedi'u pennu fel rhai anaddas (h.y. ni allai adeileddau fod yr unig reswm dros bennu llwybr fel un anaddas)	Dyletswydd ar yr awdurdodau lleol i ystyried adeileddau ar hawliau tramwy cyhoeddus – byddai ei hangen er mwyn arfarnu llwybrau ar gyfer eu dad-ddewis
010.	Diffinio'r amser cychwyn – e.e. sut a phryd y daw hawliau newydd i rym	Dull cyfnod pontio? E.e. amser i ad-drefnu'r dodrefn lle bo hynny'n ofynnol
011.	Awdurdodau lleol i dderbyn mwy o bwerau i osod arwyddion ar hyd llwybrau lle ceir cynnydd yng nghymhlethdod darparu mynediad, e.e. - Arwyddion cynghorol lle mae hawliau mynediad wedi newid a/neu wedi'u cyfyngu (trwy bennu bod llwybr yn anaddas) - Yr awdurdod lleol fyddai'n penderfynu ar y math o arwydd a'i leoliad	
012.	Gwaith addysgu ynghylch y Cod Cefn Gwlad diwygiedig - Diwygio'r Cod Cefn Gwlad a chodau gweithgareddau cysylltiedig - Ymgyrch(oedd) ymwybyddiaeth y cyhoedd - Ymwybyddiaeth gan dirfeddianwyr - Y posibilrwydd o orfodi a nodi'r hyn sy'n ddisgwyliedig gan bobl Nodi'r drefn arferol ar gyfer cydymffurfiaeth	Cod statudol (fel yn yr Alban) - Addasu canfyddiadau pobl o ran mynediad – Offeryn addysgu gwell? Plismona gan ddefnyddwyr mewn perthynas â gweithredoedd anghyfrifol (defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol)

Mae'n bosibl nodi amrywiadau mewn un neu fwy o elfennau allweddol ar gyfer cynnig opsiwn a chadw'r dull cyffredinol ar yr un pryd. Mae'r rhain wedi'u nodi yn y tabl uchod.

2A(iii) Cymhwyso hawliau uwch i lwybrau troed ar sail ddetholedig

Disgrifiad o'r cynnig opsiwn amlinellol:

Trwy gais, fesul achos, i'r awdurdod lleol neu awdurdod parc cenedlaethol perthnasol, ar gyfer cael estyniad i'r gweithgareddau y gall y cyhoedd eu gwneud ar lwybrau troed drwy hawl. Dylai hyn gynnwys ffurfiau ar hamddena nad ydynt wedi'u pweru'n fecanyddol, gan gynnwys beicio a marchogaeth ceffylau. (Ddim yn ddull cyffredinol fel yr opsiwn diwygio uchod.)

Elfennau allweddol o fewn y cynnig opsiwn amlinellol o ran dull 'Cymhwyso hawliau uwch i lwybrau troed ar sail ddetholedig':

Ystyriwyd y byddai'n ofynnol i'r opsiwn hwn gynnwys yr elfennau canlynol ynddo:

Cyfeirnod	2A(iii) Elfen ofynnol ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol	Elfen allweddol amgen ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol
001.	Deddfwriaeth i ddarparu pwerau ar gyfer awdurdodau priffyrdd lleol er mwyn pennu llwybrau troed unigol ar gyfer defnydd hawliau uwch.	
002.	Pwerau ar gyfer rheoliadau i nodi'r canlynol: y broses bennu, gan gynnwys meini prawf ar gyfer asesu llwybrau troed, darpariaeth ar gyfer asesu effeithiau (e.e. ar reoli tir, cadwraeth natur / bywyd gwyllt, ystyriaethau iechyd a diogelwch ac ati)	
003.	Prosesau syml ag iddynt derfyn amser (mewn cymhariaeth â phroses gorchymyn addasu mapiau diffiniol er enghraifft)	Prosesau syml ag iddynt derfyn amser (mewn cymhariaeth â phroses gorchymyn addasu mapiau diffiniol er enghraifft)
004.	Gwneud darpariaeth i ddeddfu ar gyfer prosesau ymgynghori ac apelio	
005.	Diwygio rheoliadau mapiau diffiniol er mwyn adlewyrchu newidiadau	
006.	Diweddaru mapiau diffiniol: mecanwaith ar gyfer diweddaru mapiau diffiniol	Angen clirio ôl-groniad gorchmynion addasu mapiau diffiniol cyn diweddaru mapiau, neu ochr yn ochr â'r gwaith hwnnw.

Cyfeirnod	2A(iii) Elfen ofynnol ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol	Elfen allweddol amgen ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol
007.	Pwerau ychwanegol ar gyfer awdurdodau lleol / awdurdodau parciau cenedlaethol er mwyn addasu cyfyngiadau ar lwybrau (seilwaith) i hwyluso mynediad ar gyfer hawliau uwch a rhesymau hygyrchedd	Pwerau ychwanegol ar gyfer awdurdodau lleol / awdurdodau parciau cenedlaethol er mwyn addasu cyfyngiadau ar seilwaith ac arwynebau?
008.	Ailddiffinio eitemau ychwanegol (cysylltiedig â Diwygiad 1A – e.e. cludo cychod i ddyfroedd mewndirol ar hyd hawliau tramwy)	
009.	Mecanwaith cyfyngiadau a gwaharddiadau ar gyfer rhesymau sydd wedi'u diffinio – trwy gais i awdurdod priffyrdd lleol (tir gweithio, cadwraeth natur, bywyd gwyllt, ystyriaethau iechyd a diogelwch ac ati)	Mecanwaith cyfyngiadau a gwaharddiadau – yn ôl disgresiwn yr awdurdod priffyrdd lleol (tir gweithio, cadwraeth natur, bywyd gwyllt, ystyriaethau iechyd a diogelwch ac ati)
010.	Ystyried term/diffiniad newydd ar gyfer llwybrau troed y mae hawliau uwch wedi'u pennu iddynt, yn ogystal ag arwyddion statudol diwygiedig	Dim newid i derminoleg llwybrau troed, heblaw pwerau i arddangos hawliau uwch ar lwybrau troed a bennir (efallai na fydd eraill yn gwneud hyn)
011.	Cod hamdden – addasu'r Cod Cefn Gwlad, felly arweiniad cynghorol yn unig	Deddfu ar gyfer cod statudol (yn debyg i'r ffordd y mae cod yr Alban wedi'i nodi) er mwyn diffinio hawliau a chyfrifoldebau, gan gynnwys sancsiynau ar gyfer torri'r cod [e.e. colli hawliau wrth beidio â gweithredu yn unol â'r cod; cyflwyno hysbysiadau]

Mae'n bosibl nodi amrywiadau mewn un neu fwy o elfennau allweddol ar gyfer cynnig opsiwn a chadw'r dull cyffredinol ar yr un pryd. Mae'r rhain wedi'u nodi yn y tabl uchod.

Diwygiad 2B

Adnabod opsiynau diwygio amlinellol

Yn yr un modd â Diwygiad 2A, yng ngham cyntaf y broses ar gyfer Diwygiad 2B, nodwyd y cynigion amlinellol bras canlynol a chytunwyd ar y rhai y dylid eu hystyried ymhellach. Mae'r cynigion amlinellol wedi'u crynhoi yn y tabl canlynol:

2B: Teitlau'r cynigion amlinellol	Disgrifiad cryno o'r cynigion amlinellol
i. Dargyfeirio neu gau llwybrau drwy hysbysiadau	Symleiddio'r broses o drefnu dargyfeiriad tymor byr drwy hysbysiad heb orfod hysbysebu yn y wasg. Dylid darparu llwybr amgen a'i ddangos ar-lein ac ar lawr gwlad. Mae'n cynnwys mesurau rheoli da byw a rhesymau penodol eraill.
ii. Dargyfeirio yn ôl cod mynediad statudol	Cod statudol i ddiffinio'r ddarpariaeth o fesurau amgen a thymor byr er mwyn dargyfeirio mynediad cyhoeddus.
iii. Dargyfeirio dros dro ar gyfer gwaith	Defnyddio'r un mecanwaith sy'n cael ei ddatblygu yn Lloegr i greu dargyfeiriadau dros dro i hawliau tramwy cyhoeddus o dan adran 135A o'r Ddeddf Priffyrdd

2B(i) Dargyfeirio neu gau llwybrau drwy hysbysiadau

Disgrifiad o'r cynnig opsiwn amlinellol:

Symleiddio'r broses o drefnu dargyfeiriad tymor byr drwy hysbysiad heb orfod hysbysebu yn y wasg. Dylid darparu llwybr amgen a'i ddangos ar-lein ac ar lawr gwlad. Mae'n cynnwys mesurau rheoli da byw a rhesymau penodol eraill.

Elfennau allweddol o fewn y cynnig opsiwn amlinellol 'Dargyfeirio neu gau llwybrau drwy hysbysiadau':

Ystyriwyd y byddai'n ofynnol i'r opsiwn 'Dargyfeirio neu gau llwybrau drwy hysbysiadau' gynnwys yr elfennau canlynol ynddo:

Cyfeirnod	2B(i) Elfen ofynnol ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol	Elfen amgen ar gyfer yr opsiwn
001.	Symud y cyfrifoldeb i dirfeddianwyr hysbysu awdurdodau priffyrdd lleol o'u bwriad i ddargyfeirio/cau llwybr dros dro - [Darpariaethau deddfwriaeth newydd] - Symleiddio a chyflymu'r broses o gau/dargyfeirio - Arweiniad i gynhyrchu templed ar gyfer hysbysiad	
002.	Darpariaethau deddfwriaeth newydd: - pŵer ar gyfer tirfeddianwyr cofrestredig i hysbysu am gau/dargyfeirio [llwybrau troed /	Darpariaeth ar gyfer dargyfeiriadau dros dro yn unig, h.y. angen darparu llwybr amgen

Cyfeirnod	2B(i) Elfen ofynnol ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol	Elfen amgen ar gyfer yr opsiwn
	llwybrau ceffylau?] dros dro ac yn y tymor byr pwerau i reoleiddio darpariaethau	
003.	Dylai awdurdodau priffyrdd lleol dderbyn yr holl wybodaeth berthnasol wedi'i chynnwys yn yr hysbysiad gan dirfeddianwyr: - Rhestr wirio (rhesymau dros gau/dargyfeirio beth a pham) - Map/cynllun o gau/dargyfeirio'r llwybr - Llwybr amgen ar gael (os nad oes, yna rhesymau pam felly) Gallu awdurdod lleol i fonitro amlder cau llwybrau a chwestiynu'r angen	Awdurdodau lleol yn gallu monitro hysbysiadau sy'n ymddangos o ran pwy sy'n cau llwybrau a ble yn ôl cofnodion. Gallai hyn alluogi trafodaeth ar gyfer dargyfeirio llwybrau penodol yn fwy parhaol pe baent yn ymddangos fel hysbysiadau yn aml. Beth fyddai er y budd gorau?
004.	Tirfeddianwyr yn cofrestru tir gyda'r awdurdod lleol – awdurdodau lleol yn rheoli'r gofrestr - Cofrestru ar gyfer defnyddio'r broses symlach hon - Darparu tirfeddiannaeth/cynlluniau Gall awdurdodau lleol nodi parseli o dir a pherchenogaeth a chadw cofnod o achosion blaenorol o ddargyfeirio/cau llwybrau a’r rhesymau drostynt	
005.	Opsiwn ar gyfer gwahardd/dargyfeirio dros dro: - Gwaharddiad ar gyfer mathau o ddefnyddwyr penodol (gan barhau i ganiatáu mathau eraill o fynediad) os ystyrir bod hynny'n fater ar adegau penodol. E.e. cyfyngu cŵn yn ystod y tymor wyna / er mwyn gwarchod bywyd gwyllt Ni fyddai gofyniad ar gyfer llwybr amgen	Opsiwn fel dargyfeiriad dros dro ar gyfer pob defnyddiwr - Cyfyngu pob defnyddiwr Byddai'n ofynnol cael llwybr amgen yn ei le
006.	Proses gwyno sy'n galluogi proses fwy tryloyw (y mae modd ei herio). Ar gael i ddefnyddwyr / y cyhoedd	
007.	Angen i hysbysiadau gael eu nodi â dyddiadau (dyddiadau dechrau a dod i ben) - Cyfrifoldeb ar y tirfeddiannwr i sicrhau bod hysbysiadau yn eu lle ac yn cael eu tynnu i ffwrdd ar y dyddiad a nodir Gweithdrefn orfodi gan yr awdurdod lleol i ysgogi hyn, gan sicrhau na fydd llwybr yn cael ei ddargyfeirio/cau am gyfnod hirach nag sydd angen	
008.	Cyfathrebu am hysbysiadau:	

Cyfeirnod	2B(i) Elfen ofynnol ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol	Elfen amgen ar gyfer yr opsiwn
	Tirfeddianwyr i hysbysu'r awdurdod priffyrdd lleol – ar-lein Cyfathrebu ar-lein gan yr awdurdod lleol i'r canlynol: - Grwpiau defnyddwyr - Y cyhoedd - Rhanddeiliaid Tirfeddianwyr: - Gofyniad am hysbysiad ar y safle a chynllun waeth beth yw hyd cyfnod cau'r llwybr	
009.	Cod mynediad i'r awyr agored / Cyfathrebu â defnyddwyr ynghylch y posibilrwydd o newid llwybrau ar lawr gwlad	

Mae'n bosibl nodi amrywiadau mewn un neu fwy o elfennau allweddol ar gyfer cynnig opsiwn a chadw'r dull cyffredinol ar yr un pryd. Mae amrywiadau wedi'u nodi yng ngholofn yr 'elfennau amgen' yn y tabl uchod.

2B(ii) Dargyfeirio yn ôl cod mynediad statudol

Disgrifiad o'r cynnig opsiwn amlinellol:

Cod statudol i ddiffinio'r ddarpariaeth o fesurau amgen a thymor byr er mwyn dargyfeirio mynediad cyhoeddus at ddibenion rheoli tir. Byddai'r llwybrau amgen a ddarperir yn unol â'r cod yn hawl tramwy dros dro.

Elfennau allweddol o fewn y cynnig opsiwn amlinellol 'Dargyfeirio yn ôl cod mynediad statudol':

Ystyriwyd y byddai'n ofynnol i'r opsiwn 'Dargyfeirio yn ôl cod mynediad statudol' gynnwys yr elfennau canlynol ynddo:

Cyfeirnod	2B(ii) Elfen ofynnol ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol	Elfen amgen ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol*
1.	Deddfwriaeth ar gyfer cod mynediad statudol er mwyn galluogi'r opsiwn hwn (y byddai elfennau gorfodol a chynghorol yn perthyn iddo)	
2.	Diffinio (arweiniad) amgylchiadau dargyfeiriad(au) - Diffinio tirfeddiannwr - Mewnbwn gan randdeiliaid (e.e. Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru) Diffinio'r amgylchiadau yn y cod yn glir ar gyfer defnyddwyr/tirfeddianwyr/rheolwyr tir Trawsnewidiol (yn gyfan gwbl / gan fwyaf)	Defnyddiwr yn gallu dod o hyd i'w lwybr amgen/dargyfeiriad rhesymol ei hun, os na roddwyd un priodol.

Cyfeirnod	2B(ii) Elfen ofynnol ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol	Elfen amgen ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol*
	Prosesau (nid newid llwybr ar gyfer gwaith)	
3.	Diffinio llwybr amgen rhesymol - Darpariaeth ddiogel a rhesymol - [Llofnodwyd] *Atebolrwydd ar gyfer y tirfeddiannwr a defnyddwyr* - *Hawliau tramwy* *Cyfleustra* *Cyfathrebu* *Diogel/cyfatebol*	
4.	Cyfathrebu – yr hyn y dylid ei ddisgwyl yn y cod (rhaeadru'r cod i bawb); hysbysiadau ffurfiol	
5.	Datblygu cod statudol cyffredinol – ar gyfer pob mynediad yn ôl y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy / at hawliau tramwy cyhoeddus	
6.	Am ba hyd y bydd cwmpas y cod statudol yn parhau? - Pryd y bydd angen gwneud cais am ddargyfeiriad hirach? *(yn mynd yn ôl i'r cam diffinio)*	
7.	Cyfathrebu – ar lawr gwlad - Templed arwyddion (i fod yn rhan o'r cod) Presenoldeb penodol ar y cyfryngau cymdeithasol	Cyfrifon cyfryngau cymdeithasol i'r cyhoedd 'fynd iddynt' ar gyfer pob gwybodaeth sy'n ymwneud â'r cod statudol.
8.	Proses apelio trwy'r awdurdod priffyrdd - Ar gyfer defnyddwyr sydd am gwyno am gau/dargyfeirio llwybr tymor byr *(gormod)* Cosbau neu orchymyn	

2B(iii) Dargyfeirio dros dro ar gyfer gwaith

Disgrifiad o'r cynnig opsiwn amlinellol:

Defnyddio'r un mecanwaith sy'n cael ei ddatblygu yn Lloegr i greu dargyfeiriadau dros dro i hawliau tramwy cyhoeddus o dan adran 135A o'r Ddeddf Priffyrdd

Elfennau allweddol o fewn y cynnig opsiwn amlinellol 'Dargyfeirio dros dro ar gyfer gwaith':

Ystyriwyd y byddai'n ofynnol i'r opsiwn 'Dargyfeirio dros dro ar gyfer gwaith' gynnwys yr elfennau canlynol ynddo:

Cyfeirnod	2B(iii) Elfennau gofynnol	Elfen amgen ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol*
001.	Diffinio (gan ddefnyddio cynigion deddfwriaethol drafft yn Lloegr) adran 135A newydd o'r Ddeddf Priffyrdd: - Awdurdodau lleol i gael pwerau newydd i greu dargyfeiriadau newydd ar gyfer rhesymau rheoli tir penodol: gwaith [yn ymwneud ag amaethyddiaeth] a rheoli da byw - Awdurdod priffyrdd lleol yn penderfynu ar ddargyfeiriadau dros dro ac yn eu gwneud - Dargyfeiriadau sydd wedi'u gwneud yn briodol i gael statws hawliau tramwy cyhoeddus dros dro a phwerau (ar gyfer awdurdodau priffyrdd lleol), hawliau a chyfrifoldebau cysylltiedig - Hawliau i dirfeddianwyr wneud cais am gau llwybrau dros dro - Rheoliadau ar gyfer y broses [A ddylid ystyried dargyfeirio neu gau am gyfnod mwy cyfyngedig a rhoi hyn ar waith trwy hysbysiad?]	Y dargyfeiriad i fod o natur ganiataol Pwerau ar gyfer yr awdurdod priffyrdd lleol er mwyn dargyfeirio i dir cyfagos trwy gytundeb Pwerau i gynnwys cau llwybrau dros dro am resymau cyfyngedig a phenodol a/neu waharddiadau ar gyfer defnyddwyr penodol mewn rhai amgylchiadau [neu a ddylid gadael hyn i orchmynion rheoleiddio traffig?] Cyfyngu ar nifer ac ehangder achosion o ddargyfeirio/cau llwybrau o'r fath ar unrhyw dirfeddiannaeth neu dirfeddiannaeth gyfagos yn ystod cyfnod penodedig
002.	Pwerau rheoliadol i ddiffinio'r canlynol: y broses a meini prawf, gan gynnwys: - ffurflen a gwneud ceisiadau, - meini prawf asesu a phrosesu ceisiadau; - meini prawf penderfynu (gan gynnwys asesiad o lwybrau amgen, e.e. effaith ar y rhwydwaith / teithiau ymlaen; iechyd a diogelwch; mynediad lleiaf rhwystrol ac ati) - ceisiadau ar-lein [a hysbysiadau – gweler isod] i'r awdurdod priffyrdd lleol - safonau ar gyfer darparu llwybrau amgen (gan gynnwys cysylltedd; ffurf hysbysiadau/arwyddion cau llwybrau mewn amgylchiadau eithriadol yn unig	Porth ymgeisio [a hysbysiad] canolog ar gyfer Cymru [gweler isod] – perthnasol i dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy hefyd o bosibl
003.	Darparu cyfnod rhybudd o 14 diwrnod cyn y caiff unrhyw waith ei wneud. Teimlwyd mai dyma fyddai'n gywir. Gofyniad i'r hysbysiad gael ei gyflwyno ar-lein drwy wefan yr awdurdod lleol	Darparu hysbysiadau trwy borth Cymru ar-lein. Byddai adran gan bob ardal sydd o dan reolaeth awdurdod priffyrdd lleol. [I'w ddefnyddio o bosibl gyfer amrediad o brosesau mynediad

Cyfeirnod	2B(iii) Elfennau gofynnol	Elfen amgen ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol*
	Awdurdodau priffyrdd lleol i ddarparu hysbysiadau/arwyddion safonol ar gyfer tirfeddianwyr/rheolwyr tir gyda dyddiadau dechrau/dod i ben arnynt er mwyn eu codi ar y safle.	cyhoeddus – dolen i Ddiwygiad 3A o bosibl]
004.	Darparu mecanwaith ar gyfer cau llwybrau mewn rhai achosion gan ddefnyddio'r rheol 28 diwrnod fel y caiff ei chymhwyso yn y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy. Cyfyngu ar ehangder a nifer y llwybrau a gaiff eu heffeithio o fewn cyfnod penodedig o amser [yn flynyddol, efallai, neu o fewn cyfnod o X o flynyddoedd]	Dim mecanwaith terfynu ymhen 28 diwrnod.
005.	Proses ymgeisio ar-lein i leihau'r amser gweinyddu ar gyfer yr awdurdod lleol, gan gynnwys templedi/ffurflenni i'w creu ar gyfer yr holl waith papur cyfreithiol ar-lein. Hysbysiadau ar-lein am ddargyfeiriadau – gan leihau'r costau hysbysebu. Arwyddion/hysbysiadau ar y safle: yr awdurdod priffyrdd lleol i ddarparu arwyddion ar gyfer y safle i'w rhoi yn eu lle gan y tirfeddiannwr/rheolwr tir yn lle cyflawni'r gwaith o nodi'r dargyfeiriad ei hun, a byddai hyn yn lleihau'r gost. [Lleihau'r costau cyffredinol: amcangyfrifir y gellid lleihau costau'r broses i gyn lleied â £300 y cais [o amcangyfrif o dros £2,000]. Fodd bynnag, gallai greu gwaith newydd ac ychwanegol]	
006.	Byddai pwerau i ddargyfeirio hawliau tramwy cyhoeddus dros dro yn cadw'r un atebolrwydd. Bu trafodaeth hefyd ynghylch dod draw â llai o atebolrwydd o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy er mwyn ei gymhwyso i hawliau tramwy cyhoeddus yn ogystal.	Llwybr caniataol – ond byddai'n cynyddu'r atebolrwydd i dirfeddianwyr o gymharu â hawliau tramwy cyhoeddus Lleihau atebolrwydd hawliau tramwy cyhoeddus yn unol â'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy [neu yn ôl Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir yn Lloegr]

Cyfeirnod	2B(iii) Elfennau gofynnol	Elfen amgen ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol*
007.	Dyletswydd y tirfeddiannwr / rheolwr y tir fyddai codi arwyddion/ffensys dros dro (mewn achosion sy'n ymwneud â rheoli da byw) er mwyn nodi'r dargyfeiriad. Dyletswydd yr awdurdod lleol i ddarparu'r arwyddion i'r tirfeddiannwr eu defnyddio. Hysbysiadau gyda map o'r llwybr yr effeithir arno ar wefan yr awdurdod priffyrdd lleol.	Porth canolog ar gyfer hysbysiadau a cheisiadau [materion mynediad cyhoeddus ehangach o bosib – gweler Diwygiad 3A] – wedi'i reoli gan awdurdodau priffyrdd lleol unigol. Map o Gymru'n dangos y llwybrau yr effeithir arnynt
008.	Bydd angen i ddarpariaethau ystyried defnydd hawliau uwch posibl o lwybrau troed sy'n ddarostyngedig i ganlyniad cynigion ar gyfer Diwygiad 2A. Byddai galluogi deddfwriaeth lle darperir manylion drwy reoliadau yn fwy hyblyg ac yn haws i'w adolygu yn y dyfodol.	Fel arall, gellid cynnwys proses adolygu'r pwerau er mwyn sicrhau y gellir eu diwygio, os oes angen.

Atodiad A

Aelodau'r grŵp arbenigol a oedd yn bresennol yn ystod y cyfarfod:

Enw	Sefydliad
Kate Ashbrook	Y Gymdeithas Mannau Agored
Chris Dale	Cyngor Dinas a Sir Abertawe
Duncan Dollimore	Beicio'r DU
Sophie Dwerryhouse	Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad
Nick Fenwick	Undeb Amaethwyr Cymru
Rachel Lewis-Davies	Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru
Rhian Nowell Phillips	Y Gynghrair Cefn Gwlad
Anthony Richards	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
David Shiel	Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Mark Weston	Cymdeithas Ceffylau Prydain
Alison Roberts	Cyfoeth Naturiol Cymru
Joseph Roberts	Cyfoeth Naturiol Cymru
Sarah Smith	Llywodraeth Cymru
Jont Bulbeck	Cyfoeth Naturiol Cymru
Jayne Carter	Cyfoeth Naturiol Cymru